Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cylchlythyr 002/2025

## Canllawiau ar Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Mewn Ardal Risg Llifogydd) (Hysbysu) (Cymru) 2025

31 Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron WG 51799 ISBN Digidol **978-1-83715-421-0**

# CANLLAWIAU AR GYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD MEWN ARDAL RISG LLIFOGYDD) (HYSBYSU) (CYMRU) 2025

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau cynllunio lleol; busnesau; asiantaethau’r Llywodraeth; grwpiau eraill y sector cyhoeddus; cyrff proffesiynol a grwpiau diddordeb; grwpiau gwirfoddol a’r cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Mae'r Cylchlythyr hwn a'r Cyfarwyddyd yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau cynllunio penodol at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt fedru penderfynu a ydynt am alw'r cais i mewn er mwyn iddyn nhw gael penderfynu arno. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Mae angen i awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol y bydd y Cylchlythyr hwn a'r Cyfarwyddyd yn effeithiol o 31 Mawrth 2025 ymlaen a'u bod yn ei gwneud yn ofynnol i:<br><br>Awdurdodau cynllunio lleol i gyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru os nad ydynt yn bwriadu gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a all fod mewn perygl mawr lle mae’r tir cyfan sydd am gael ei ddatblygu, neu ran ohono, o fewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd yn Afonydd a’r Môr - Parth Llifogydd 3 o’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio pan fo’r holl dir neu ran o’r tir sydd i gael ei ddatblygu’n “dir sydd heb ei ddatblygu o’r blaen” (fel y’i diffinnir yn y Cylchlythyr hwn ac yn y Cyfarwyddyd). Ar gyfer anheddau preswyl, mae’r rheol hon yn berthnasol i geisiadau a fyddai’n arwain at gynnydd net yn nifer yr anheddau, gan gynnwys fflatiau, lle mae’r tir cyfan sydd am gael ei ddatblygu, neu ran ohono, o fewn Parth Llifogydd 3 a phan fo’r holl dir neu ran o’r tir sydd i gael ei ddatblygu’n “dir sydd heb ei ddatblygu o’r blaen”. Nid yw’n berthnasol ar gyfer mathau penodol o geisiadau ar gyfer anheddau preswyl, gan gynnwys newidiadau o ran defnydd a throsiadau.<br><br>Mae’r Cylchlythyr hwn a’r cyfarwyddyd yn disodli darpariaethau Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 07/12 ynglŷn â “Datblygiad Ardaloedd mewn Perygl o Lifogydd”. Ni fydd y darpariaethau a nodwyd ym mharagraff 12 hyd at baragraff 15 o Gylchlythyr 07/12 yn gymwys i geisiadau am ganiatâd a wneir ar neu ar ôl 31 Mawrth 2025. |
| **Rhagor o Wybodaeth** | Y Gangen Polisi Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru |

Parc Cathays Caerdydd, CF10 3NQ
Email: PlanningPolicy@llyw.cymru

**Dogfennau cysylltiedig** Polisi Cynllunio Cymru; Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad, llifogydd ac erydu arfordirol; Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

| **Cynnwys** | **Paragraff(au)** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 - 11 |
| Cyd-destun Cyfarwyddyd 2021 | 12 - 20 |
| Cychwyn a Rhychwant | 21 - 26 |
| Diben a Chwmpas | 27 - 28 |
| Gofynion o ran Hysbysu | 29 - 31 |
| Cyfyngu ar Roi Caniatâd Cynllunio | 32 - 33 |
| Monitro ac Adolygu | 34 |
| **Atodiad 1 - CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD MEWN ARDAL RISG LLIFOGYDD) (HYSBYSU) (CYMRU) 2025** |  |

# CANLLAWIAU AR GYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD MEWN ARDAL RISG LLIFOGYDD) (HYSBYSU) (CYMRU) 2025

## CYFLWYNIAD

1. Mae adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990) yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am ganiatâd cynllunio, neu i gymeradwyaeth gan unrhyw awdurdod cynllunio lleol sydd ei angen o dan orchymyn datblygu, gael eu cyfeirio atyn nhw yn hytrach na bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu arnynt.

2. Mae erthygl 14(3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i awdurdod cynllunio lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod hwnnw ymgynghori ag unrhyw berson neu gorff a enwyd yn cyfarwyddydau mewn unrhyw achos neu ddosbarth o achosion a bennir yn y cyfarwyddydau. Mae erthygl 18(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael rhoi cyfarwyddydau sy'n cyfyngu ar roi caniatâd gan awdurdod cynllunio lleol, naill ai am gyfnod amhenodol neu yn ystod pa gyfnod bynnag a bennir yn y cyfarwyddydau, mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad neu mewn perthynas ag unrhyw ddosbarth a bennir felly. Yn unol ag Erthygl 18(3) o'r Gorchymyn hwnnw, rhaid i awdurdod cynllunio lleol ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae cyfarwyddyd o'r fath a roddir o dan yr erthygl hon yn gymwys iddo mewn modd a fydd yn rhoi effaith i'r cyfarwyddyd.

3. Mae erthygl 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ddarparu pa wybodaeth bynnag a wneir yn ofynnol gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd am geisiadau a wnaed o dan Erthygl 5 o'r Gorchymyn hwnnw ar gyfer caniatâd cynllunio, gan gynnwys gwybodaeth am y modd yr ymdriniwyd ag unrhyw gais o'r fath. Caiff unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gynnwys darpariaeth ynglŷn â pha bersonau sydd i'w hysbysu a'r modd y mae'r wybodaeth i'w darparu.

4. Amlinellir Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Mewn Ardal Risg Llifogydd) (Hysbysu) (Cymru) 2025 (Cyfarwyddyd 2025) yn Atodiad 1.

5. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn dod i rym ar 31 Mawrth 2025 er mwyn alinio gofynion ar gyfer cyfeirio ceisiadau ar gyfer ardaloedd mewn perygl o lifogydd at Weinidogion Cymru gyda pholisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig a mapiau llifogydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygiad, llifogydd ac erydu arfordirol[1] a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio[2] (ac mae'r ddau'n gymwys o 31 Mawrth 2025) yn darparu'r polisi cynllunio cenedlaethol a'r ystyriaethau mapio perthnasol.

---

1 Mae TAN 15 ar gael yma: https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-llifogydd-ac-erydu-arfordirol
2 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar gael yma: https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/

6. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio leol, pan fyddant yn penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl 31 Mawrth 2025, gyfeirio'r ceisiadau hynny at Weinidogion Cymru os nad ydynt yn bwriadu gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer:

   - Datblygiad a all fod mewn perygl mawr;
   - Pan fo'r holl dir neu ran o'r tir sydd i gael ei ddatblygu o fewn yr ardal mewn perygl o lifogydd yn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio; a
   - Phan fo'r holl dir neu ran o'r tir sydd i gael ei ddatblygu'n "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen".

7. Mae'r diffiniad o "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen" pan fo angen hysbysu Gweinidogion Cymru am ddatblygiad yn cynnwys y canlynol:

   - tir na fu arno ar unrhyw adeg strwythur parhaol a'r seilwaith sefydlog cysylltiedig ar wyneb y tir;
   - tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth;
   - tir sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer echdynnu mwynau neu waredu gwastraff drwy dirlenwi, pan fo darpariaeth ar gyfer adfer wedi ei gwneud drwy weithdrefnau rheoli datblygu;
   - parciau;
   - tiroedd hamdden;
   - cyrsiau golff;
   - rhandiroedd;
   - tir lle y mae olion strwythur parhaol neu strwythur arwyneb sefydlog wedi ymdoddi i'r dirwedd;
   - tir a ddatblygwyd o'r blaen ac a ddefnyddiwyd wedyn at ddiben amwynder;
   - tir y nodir bod ganddo werth cadwraeth natur gan gynnwys cynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru fel y'u diffinnir yn adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; neu
   - Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig fel y'u diffinnir yn adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

8. O ran anheddau preswyl yn dod o dan ddiffiniad datblygiad a all fod mewn perygl mawr, mae Cyfarwyddyd 2025 yn berthnasol i'r ceisiadau hynny a fyddai'n arwain at gynnydd net yn nifer yr anheddau lle mae'r tir cyfan sydd am gael ei ddatblygu, neu ran ohono, o fewn yr ardal mewn perygl o lifogydd yn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3. Mae'r diffiniad hwn o anheddau yn cynnwys fflatiau. Mae eithriadau penodol sy'n berthnasol i hysbysiad anheddau preswyl ac *ni* ddylid hysbysu Gweinidogion Cymru am y mathau canlynol o geisiadau:

   - Estyn anheddau presennol;
   - Rhoi nifer cyfatebol o anheddau newydd yn lle anheddau presennol;
   - Isrannu anheddau presennol yn ddwy annedd breswyl neu ragor; a
   - Newid defnydd neu drosi adeiladau amhreswyl yn adeiladau preswyl.

9. Ar 31 Mawrth 2025 mae Cyfarwyddyd 2025 yn disodli'r darpariaethau presennol ar gyfer "Datblygiad mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd", "Datblygiad

Gwasanaethau Brys", "Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd" a "Datblygiad a all fod mewn Perygl Mawr" a nodir ym mharagraff 2 o Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 (Cyfarwyddyd 2012) ac ym mharagraff 12 hyd at 15 o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 07/12.

10. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad o'r fath i Weinidogion Cymru, rhaid i'r awdurdod beidio â rhoi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir yn y Cyfarwyddyd 2025. Fodd bynnag, caiff yr awdurdod cynllunio lleol fynd ati i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod, cyn i'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau ddod i ben, nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw'r cais o dan sylw i mewn o dan adran 77 o Ddeddf 1990, neu os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r cais yn un ar gyfer *Datblygiad mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd* na *Datblygiad Anheddau Preswyl mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd.*

11. Diben y canllawiau hyn yw sicrhau mai dim ond pan fo angen y bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu, a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y lefel briodol.

**CYD-DESTUN CYFARWYDDYD 2025**

12. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn cyflwyno meini prawf diwygiedig y mae angen i awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio i benderfynu a ddylid cyfeirio ceisiadau cynllunio at Weinidogion Cymru. Mae'n nodi'r mathau o ddatblygiad preswyl o fewn ardaloedd risg llifogydd ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen a allai godi materion o fwy na phwysigrwydd lleol ac y gallai Gweinidogion Cymru ddymuno eu galw i mewn. Dyna yw diben y broses hysbysu.

13. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn disodli'r darpariaethau ar gyfer "Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd", "Datblygiad mewn Ardaloedd lle y gall fod Perygl o Lifogydd", "Datblygiad Gwasanaethau Brys" a "Datblygiad a all fod mewn Perygl Mawr" a nodwyd ym mharagraff 2 o Gyfarwyddyd 2012 ac ym mharagraffau 12 hyd at 15 o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 07/12. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn berthnasol i unrhyw gais ar gyfer caniatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl 31 Mawrth 2025. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer unrhyw ddatblygiadau arfaethedig a all fod mewn perygl mawr lle mae'r tir cyfan sydd am gael ei ddatblygu, neu ran ohono, o fewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd yn Afonydd a'r Môr - Parth Llifogydd 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio; a phan fo'r holl dir neu ran o'r tir sydd i gael ei ddatblygu'n "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen"; ac nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

14. Diffiniadau 'datblygiadau a all fod mewn perygl mawr' sy'n berthnasol ar gyfer Cyfarwyddyd 2025 yw'r rhai a nodir yn Ffigur 4 o TAN 15 (dyddiedig 31 Mawrth

2025). Mae TAN 15 yn cadarnhau mai datblygiad lle mae gallu deiliaid i benderfynu a ydynt am dderbyn y risgiau i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd, neu allu rheoli canlyniadau risg o'r fath, yn gyfyngedig, yw datblygiad a all fod mewn perygl mawr. Mae hefyd yn cynnwys y defnyddiau diwydiannol hynny ble byddai risg disgwyliedig i'r cyhoedd a'r amgylchedd dŵr pe byddai'r safle'n cael llifogydd. Mae TAN 15 yn egluro bod angen i 'wasanaethau brys' a "chanolfannau rheoli awdurdodau lleol" fod yn weithredol a hygyrch bob amser ac felly'n cael ei gynnwys yng nghategori datblygiadau a all fod mewn perygl mawr. Diben Cyfarwyddyd 2025 yw cynnwys yr holl ddatblygiadau a all fod mewn perygl mawr ac felly ni ddylai categorïau'r datblygiadau a nodir yn benodol yn y Cyfarwyddyd 2025 gael eu trin yn gynhwysfawr.

15. O ran datblygiadau preswyl, mae Llywodraeth Cymru'n pryderu am y potensial i geisiadau gael eu caniatáu a fyddai'n arwain at roi pobl ac eiddo mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol. Felly, mae'r trothwy ar gyfer hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl i ardaloedd mewn perygl o lifogydd wedi gostwng (o 10 annedd neu fwy, gan gynnwys fflatiau, yng Nghyfarwyddyd 2012) i un annedd, gan gynnwys fflatiau, yng Nghyfarwyddyd 2025 (gyda rhai eithriadau fel y trafodir isod). Bydd y trothwy is hwn ar gyfer datblygiadau preswyl yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r cyfle i ystyried a fydd awdurdodau wedi craffu'n briodol ar gynigion o'r fath. Caiff Gweinidogion Cymru ddewis galw'r cais cynllunio i mewn neu, os bydd hynny'n briodol, rhoi cyfarwyddyd na cheir cymeradwyo'r cais tan y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

16. Dyluniwyd y newidiadau i'r gofynion o ran hysbysu ar gyfer datblygiadau preswyl i ardaloedd mewn perygl o lifogydd ochr yn ochr â pholisi cynllunio am beryglon llifogydd a mapio i hwyluso newid diwylliannol. Yn y pen draw, eu nod yw sicrhau y bydd safiad cadarn gan yr holl awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl sy'n rhoi pobl ac eiddo mewn mwy o berygl o lifogydd.

17. Er yr hyn a nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull pragmatig i'r gofyniad o ran hysbysu ar gyfer datblygiadau preswyl. Felly, nid yw'n ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau preswyl am estyniadau nac anheddau newydd tebyg am debyg, na fydd yn arwain at gynnydd net yn nifer yr anheddau ac felly ni ddylai gynyddu'r perygl cyffredinol o lifogydd o ganlyniad i'r datblygiad. Yn yr un modd, os ystyrir ceisiadau lle mae egwyddor y datblygiad preswyl eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer safle mewn ardal mewn perygl o lifogydd, yn achos o is-rannu anheddau presennol, nid yw'n ofynnol hysbysu am y cynigion hynny. Mae eithriadau hefyd o dan amgylchiadau pan fydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai awdurdodau cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y newid o ran defnydd neu drosi adeiladau presennol yn ddatblygiadau preswyl, gan gydbwyso hynny yn erbyn yr ystyriaeth leol o ran perygl o lifogydd. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle bydd angen ailddatblygu adeiladau presennol at ddibenion adfywio, ar yr amod y lluniwyd cynigion i wrthsefyll llifogydd. Gallai hyn gynnwys amgylchiadau lle y penderfynir mai defnydd preswyl yw'r opsiwn mwyaf hyfyw o ran ailddefnyddio adeilad presennol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae TAN 15 yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal asesiad canlyniadau llifogydd ar gyfer y cynnig.

18. Yn ychwanegol at yr uchod mewn perthynas â datblygiadau preswyl, cydnabyddir mai awdurdodau cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau mewn perthynas â thir sydd wedi cael ei ddatblygu o'r blaen, sydd i bob pwrpas yn dir llwyd, mewn ardaloedd risg llifogydd. Felly, unwaith eto mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull ymarferol mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau arfaethedig ar dir llwyd mewn ardaloedd risg llifogydd, ac ni fyddai'n ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau o'r fath. At ddibenion y Cylchlythyr hwn a Chyfarwyddyd 2025, er mwyn sicrhau nad yw Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu am y mathau hynny o gais, mae'n defnyddio diffiniad sy'n sicrhau nad yw'n ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru ond am ddatblygiadau ar "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen" (effaith hyn yw datgymhwyso unrhyw ofyniad i hysbysu am ddatblygiad arfaethedig ar dir sydd wedi cael ei ddatblygu o'r blaen). Mae'r diffiniad o "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen" yn gwrthdroi'r diffiniad o "dir sydd wedi cael ei ddatblygu o'r blaen" ym Mholisi Cynllunio Cymru[3]. Fel y mae'n berthnasol i ddatblygiadau preswyl arfaethedig wedi'u disgrifio yn y paragraff uchod, pan fydd datblygiad yn cael ei gynnig mewn ardal risg llifogydd ar dir llwyd, ni fydd yn ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru. Mae TAN 15 yn ei gwneud yn ofynnol o hyd gynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer y cynnig.

19. Pan na fydd gofynion TAN 15 wedi'u bodloni ac nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod y cais o hyd, bydd rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru'n gallu gofyn i'r cais gael ei alw mewn i Weinidogion Cymru benderfynu arno.

20. Mae cyfeiriadau at y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio'n cyfeirio at y map a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Phorth-Daear Map Data Cymru sy'n nodi'r perygl o lifogydd at ddibenion cynllunio ac sy'n dod i rym o 31 Mawrth 2025 ymlaen. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio'n disodli'r Map Cyngor Datblygu a ddefnyddir ochr yn ochr â fersiwn ddiwethaf TAN 15.

## CYCHWYN A RHYCHWANT

21. O 3**1 Mawrth 2025** ymlaen, **bydd y canllawiau sydd yn y Cylchlythyr hwn ac yng Nghyfarwyddyd 2025 sydd i'w weld yn Atodiad 1 ynglŷn â "Datblygiad mewn Ardal Risg Llifogydd" a Datblygiad Preswyl mewn Ardal Risg Llifogydd, yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.**

22. **Bydd y darpariaethau yng Nghyfarwyddyd 2012 ac yng Nghylchlythyr 07/12 sy'n ymdrin â "Datblygiad mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd", "Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd", "Datblygiad Gwasanaethau Brys" a "Datblygiad a all fod mewn perygl mawr" yn gymwys i unrhyw gais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed i awdurdod cynllunio lleol hyd at a chan gynnwys 30 Mawrth 2025. Ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys mwyach i unrhyw gais a wneir i awdurdod cynllunio lleol ar neu ar ôl 31 Mawrth**

---

3 Mae'r diffiniad o dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen ar dudalen 37 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12, Chwefror 2024 ar gael yma: [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12]

**2025.**

23. Nid yw'r Cylchlythyr hwn na Chyfarwyddyd 2025 yn Atodiad 1 yn diwygio nac yn dileu unrhyw un neu rai o'r darpariaethau sy'n weddill yng Nghyfarwyddyd 2012 ac yng Nghylchlythyr 07/12 mewn perthynas â:

- Datblygiadau Mwynau;
- Datblygiadau Gwastraff; a
- Datblygiadau Agregau mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

24. At hynny, nid ydynt yn diwygio nac yn dileu unrhyw un o'r darpariaethau a restrir yng Nghyfarwyddyd 2012 na Chylchlythyr 07/12 o ran "Datblygiad Preswyl Sylweddol", fel y diwygiwyd gan Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2021 a Chylchlythyr 001/2020 yn y drefn honno.

25. Dim ond o ran Cymru y mae'r canllawiau hyn a Chyfarwyddyd 2025 yn Atodiad 1 yn gymwys.

26. Nid yw Cyfarwyddyd 2025 yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 i gyfarwyddo y dylai unrhyw gais cynllunio penodol gael ei alw i mewn er mwyn iddyn nhw eu hunain gael penderfynu arno, pa un a yw'n dod o dan delerau'r naill Gyfarwyddyd neu'r llall, a chan ystyried eu polisi ar alw ceisiadau i mewn.

## DIBEN A CHWMPAS

27. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn egluro'r trefniadau a'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd ac ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen. Diben Cyfarwyddyd 2025 yw rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a ddylent arfer eu pwerau galw i mewn o dan adran 77 o Ddeddf 1990.

28. Effaith Cyfarwyddyd 2025 yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio unrhyw gais sy'n dod o fewn paragraffau 3 a 4 o Gyfarwyddyd 2025 ac nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod caniatâd cynllunio ar ei gyfer, at Weinidogion Cymru. Mae gofyn anfon ceisiadau i swyddfa briodol Llywodraeth Cymru yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2021.

## GOFYNION O RAN HYSBYSU

29. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn cyflwyno gofyniad hysbysu lle mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau ar gyfer *Datblygiad mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd* neu *Ddatblygiad Anheddau Preswyl mewn Ardal lle y gall fod Perygl o Lifogydd* ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen at Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod cais o'r fath. Ceir anfon yr wybodaeth at Weinidogion Cymru yn electronig neu ar ffurf copi caled. Mae'r gofyniad o ran hysbysu yn cynnwys darparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2025.

30. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol atgyfeirio ceisiadau os nad ydynt yn bwriadu gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau a all fod mewn perygl mawr lle mae'r tir cyfan sydd am gael ei ddatblygu, neu ran ohono, o fewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd yn Afonydd a'r Môr - Parth Llifogydd 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio; a phan fo'r holl dir neu ran o'r tir sydd i gael ei ddatblygu'n yr "dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen" (fel y'i diffinnir yn y Cylchlythyr hwn a Chyfarwyddyd 2025).

31. Mae'r gofyniad hwn i hysbysu yn gymwys i geisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl sy'n cael eu cynnwys yn niffiniad datblygiad a all fod mewn perygl mawr a fyddai'n arwain at gynnydd net yn nifer yr anheddau, gan gynnwys fflatiau. Mae eithriadau penodol ar gyfer datblygiadau preswyl yn gymwys, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer is-rannu anheddau presennol, newid defnydd a throsi anheddau.

## CYFYNGU AR ROI CANIATÂD CYNLLUNIO

32. Pan fo'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, mae Cyfarwyddyd 2025 yn gosod cyfyngiad ar roi caniatâd cynllunio am gyfnod o 21 o ddiwrnodau, a'r cyfnod hwnnw'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad y daeth yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5 o Gyfarwyddyd 2025 i law.

33. Mae Cyfarwyddyd 2025 yn caniatáu i'r awdurdod fynd ati i benderfynu ar y cais cyn i'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau ddod i ben o dan amgylchiadau pan fo'r awdurdod wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw'r cais i mewn nac yn ystyried bod y datblygiad yn ddatblygiad i'w hysbysu.

## MONITRO AC ADOLYGU

34. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos nifer y ceisiadau a fydd yn cael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru o ganlyniad i'r gofyniad hwn i'w hysbysu. Bydd hefyd yn monitro nifer y ceisiadau a gaiff eu galw i mewn wedyn. Bydd effaith Cyfarwyddyd 2025 yn cael ei hadolygu pan fydd wedi bod ar waith am gyfnod priodol.

**Neil Hemington**

Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Leol a Chynllunio

I S - D D E D D F W R I A E T H   C Y M R U

# Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Mewn Ardal Risg Llifogydd) (Hysbysu) (Cymru) 2025

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan erthyglau 18(1), 20, 22(5) ac 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Mewn Ardal Risg Llifogydd) (Hysbysu) (Cymru) 2025 a daw i rym ar 31 Mawrth 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

ystyr "ardal risg llifogydd" ("*flood risk area*") yw tir lle ceir risg o lifogydd o afonydd a'r môr a ddiffinnir fel Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3 yn Ffigur 1 o TAN 15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio;

ystyr "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*" yw'r awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**) ar gyfer ardal yng Nghymru;

ystyr "caniatâd cynllunio" ("*planning permission*") yw caniatâd o dan Ran 3 (rheolaeth dros ddatblygiad) neu adran 293A (datblygiad brys y Goron: cais) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)(**3**);

ystyr "datblygiad anheddau preswyl mewn ardal risg llifogydd" ("*flood risk area residential dwelling development*") yw datblygiad sydd o dan fygythiad mawr a fyddai'n arwain at gynnydd net yn nifer yr anheddau preswyl lle y mae'r cyfan o'r tir neu ran o'r tir ar gyfer y datblygiad o fewn yr ardal risg llifogydd yn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac eithrio—

(i) estyn anheddau presennol;

(ii) rhoi nifer cyfatebol o anheddau newydd yn lle anheddau presennol;

(iii) isrannu anheddau presennol yn ddwy annedd breswyl neu ragor; a

(iv) newid defnydd neu drosi adeiladau amhreswyl yn adeiladau preswyl;

ystyr "datblygiad hysbysu" ("*notification development*") yw datblygiad nad yw awdurdod cynllunio lleol yn cynnig ei wrthod ac y mae'n ofynnol iddo, drwy gyfarwyddyd (gweler isod), ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru;

(**1**) O.S. 2012/801.
(**2**) 1990 p. 8.
(**3**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

ystyr "datblygiad mewn ardal risg llifogydd" ("*flood risk area development*") yw datblygiad sydd o dan fygythiad mawr lle y mae'r cyfan o'r tir neu ran o'r tir ar gyfer y datblygiad o fewn yr ardal risg llifogydd yn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio;

ystyr "datblygiad sydd o dan fygythiad mawr" ("*highly vulnerable development*") yw—

(a) datblygiad sy'n ymwneud â phob mangre breswyl (gan gynnwys gwestai, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, safleoedd carafannau a safleoedd gwersylla);

(b) ysgolion a sefydliadau gofal plant;

(c) colegau a phrifysgolion;

(d) ysbytai a meddygfeydd teulu;

*(e)* datblygiad diwydiannol sydd o dan fygythiad eithriadol (gan gynnwys elfennau cynhyrchu a dosbarthu pŵer gorsafoedd pŵer, trawsnewidyddion, safleoedd cemegol a llosgyddion), a safleoedd gwaredu gwastraff;

*(f)* gwasanaethau brys (gan gynnwys gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, canolfannau rheoli a depos brys);

(g) adeiladau a ddefnyddir i ddarparu lloches frys pan fo llifogydd;

ystyr "y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio" ("*the Flood Map for Planning*") yw'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a letyir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a geo-borth Map Data Cymru;

ystyr "TAN 15" ("*TAN 15*") yw Nodyn Cyngor Technegol 15(**4**) dyddiedig 31 Mawrth 2025;

ystyr "tir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen" ("*previously undeveloped land*") yw—

(a) tir nad yw ar unrhyw adeg wedi ei feddiannu gan strwythur parhaol a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig;

(b) tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth;

(c) tir sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer echdynnu mwynau neu waredu gwastraff drwy dirlenwi, pan fo darpariaeth ar gyfer adfer wedi ei gwneud drwy weithdrefnau rheoli datblygu;

(d) parciau;

(e) tiroedd hamdden;

(f) cyrsiau golff;

(g) rhandiroedd;

(h) tir lle y mae olion strwythur parhaol neu strwythur arwyneb sefydlog wedi ymdoddi i'r dirwedd;

(i) tir a ddatblygwyd o'r blaen ac a ddefnyddiwyd wedyn at ddiben amwynder;

(j) tir y nodir bod ganddo werth cadwraeth natur gan gynnwys cynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru fel y'u diffinnir yn adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**5**); neu

(k) safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig fel y diffinnir "sites of special scientific interest" yn adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**6**).

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio—

(a) sy'n ymwneud â thir yng Nghymru;

(b) a wneir ar 31 Mawrth 2025 neu wedi hynny;

(c) ar gyfer datblygiad hysbysu sy'n—

(i) datblygiad mewn ardal risg llifogydd; neu

(ii) datblygiad anheddau preswyl mewn ardal risg llifogydd;

pan fo'r cyfan o'r tir neu ran o'r tir ar gyfer y datblygiad ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen;

---

(**4**) Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.
(**5**) (2016 dccc 3).
(**6**) 1981 p. 69.

(d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnig ei wrthod.

**Hysbysu Gweinidogion Cymru**

**4.** Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn cynnig gwrthod cais, pan fo'r cyfan o'r tir neu ran o'r tir ar gyfer y datblygiad ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen ac ar gyfer datblygiad mewn ardal risg llifogydd neu ddatblygiad anheddau preswyl mewn ardal risg llifogydd, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

**5.** Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff 4, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, anfon at Weinidogion Cymru drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

(a) copi o'r cais (gan gynnwys copïau o unrhyw blaniau a lluniadau sy'n dod gyda'r cais ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;

(b) copi o'r hysbysiad angenrheidiol o dan baragraff 4;

(c) copi o unrhyw sylwadau a gyflwynwyd i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegwyd gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);

(d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a luniwyd gan unrhyw un o swyddogion yr awdurdod;

(e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddwyd o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**7**);

(f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhaliwyd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(**8**);

(g) datganiad o'r ystyriaethau perthnasol y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn dangos (os felly y digwydd) y dylid penderfynu ar gais ar dir sydd heb ei ddatblygu o'r blaen ar gyfer datblygiad mewn ardal risg llifogydd neu ddatblygiad anheddau preswyl mewn ardal risg llifogydd mewn ffordd nad yw'n unol â'r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd mewn perthynas â'r ardal lle y mae safle'r cais.

**Y cyfnod perthnasol cyn rhoi caniatâd ar gais gwyro**

**6.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff 4, ni chaiff yr awdurdod roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad a nodir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fel y dyddiad y cawsant yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

**7.** Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—

(a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**9**) mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, neu

(b) nad yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y datblygiad yn ddatblygiad hysbysu.

**Diwygio Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012**

**8.** Mae paragraff 2 (dehongli) o Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

*(a)* hepgorer y diffiniad o "datblygiad gwasanaethau brys" ("*emergency services development*");


(b) hepgorer y diffiniad o "ardal lle y gall fod perygl o lifogydd" ("*flood risk area*");

(c) hepgorer y diffiniad o "datblygiad mewn ardal lle y gall fod perygl o lifogydd" ("*flood risk area development*");

(**7**) O.S. 2017/567 (Cy. 136), y mae diwygiadau iddo.
(**8**) O.S. 2017/1012, y mae diwygiadau iddo.
(**9**) 1990 p. 8.

(d) hepgorer y diffiniad o “datblygiad a all fod mewn perygl mawr” (“*highly vulnerable development*”); ac

(e) yn y diffiniad o “datblygiad hysbysu” (“*notification development*”) hepgorer paragraff (a).



Llofnodwyd gan Neil Hemington, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 27 Mawrth 2025